# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda

(233)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad brys am amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer mis Hydref sy'n dangos mai dim ond 55.5% o ymatebion brys i alwadau categori A (bygythiad difrifol i fywyd) a gyrhaeddodd y safle o fewn wyth munud? EAQ(4)0524(HSS)

**3 Dadl ar adroddiad dilynol y Pwyllgor Menter a Busnes ar Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) (60 munud)**
**NDM5637 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Medi 2014.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 19 Tachwedd 2014.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) (60 munud)**
**NDM5628 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Gosodwyd y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 15 Gorffennaf 2014.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 14 Tachwedd 2014.

**Dogfennau Ategol**

Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5638 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol Cymru i dreftadaeth genedlaethol Cymru.

2. Yn croesawu'r Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ffydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r gydnabyddiaeth bod gan adeiladau crefyddol rôl o ran denu ymwelwyr i Gymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill i greu cofrestr o adeiladau crefyddol pwysicaf Cymru fel y gallant gael eu diogelu'n briodol ar gyfer y dyfodol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio a gweithredu strategaeth integredig i hyrwyddo llwybrau twristiaeth ffydd megis y Ffordd Sistersaidd a denu mwy o ymwelwyr i fannau addoli yng Nghymru. 1.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pwysigrwydd adeiladau crefyddol yn cael ei ymgorffori o fewn y Bil Treftadaeth.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5635 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cŵn Tywys Cymru: rhyddid i symud i bobl ddall a rhannol ddall yng Nghymru.

I godi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cŵn Tywys Cymru yng Nghymru a cheisio barn Llywodraeth Cymru ynghylch beth arall y gellir ei wneud i gefnogi pobl sydd wedi colli eu golwg.

**8 Dadl Fer – Gohiriwyd o 19 Tachwedd 2014 (30 munud)**
**NDM5629 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Pobl hŷn a gwaith: cydnabod cyfraniad pobl hŷn yn y gweithlu ledled Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Rhagfyr 2014